# Y Pwyllgor Cyllid

## FIN(3) 09-08

**Dyddiad: Dydd Iau 12 Mehefin 2008**
**Amser: 9.30 – 10.45am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

FIN(3) 09-08 (p2) Memorandwm Esboniadol y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion

# Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008

# Memorandwm Esboniadol

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan Jenny Randerson AC a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Datganiad o Gymhwysedd Deddfwriaethol**

Yn fy marn i, byddai darpariaethau'r Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008, a gyflwynwyd gennyf ar 14 Mawrth 2008 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Jenny Randerson AC
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig.

14 Mawrth 2008

## Cynnwys


**Rhan 1: Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig**

1. Cyflwyniad
2. Cefndir deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth ac amcanion polisi
4. Ymgynghori
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Cymhwysiad Tiriogaethol

**Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

7. Dewisiadau
8. Amcangyfrif o gostau

**Rhan 3: Nodiadau Esboniadol**

# Rhan 1: Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mehefin 2007, bu Jenny Randerson, Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer Canol Caerdydd, yn llwyddiannus yn y balot cyntaf a gynhaliwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru am yr hawl i ofyn caniatâd i gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod (Rheol Sefydlog 23.99). [1]

1.2 Prif ddiben y Mesur arfaethedig yw cynnig polisi cyfannol, cynhwysfawr, wedi'i wneud yng Nghymru, yn ymwneud â maeth sy'n sicrhau bod bwyta'n iach yn cael ei hybu a'i gefnogi ar gyfer yr holl ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol Cymru.

> Mae'r maeth sydd mewn prydau ysgol wedi bod yn destun pryder ers peth amser. Ni ddylem ganolbwyntio ar fwyd sy'n hawdd ac yn gyflym ei baratoi i blant. Yn hytrach, dylem eu hannog i ddysgu mwy am fwyd a rhoi bwyd iach iddynt a fydd yn eu helpu i ddysgu.[2]

1.3 Ar 19 Medi 2007, cytunodd y Cynulliad, yn ddiwrthwynebiad, fod y Mesur Cynulliad Arfaethedig yn cael ei gyflwyno i'w drafod gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 23.103).

1.4 Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi a'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 23.18. Mae'n rhoi cefndir y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig Aelod, *Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008* ac yn egluro cwmpas y Mesur.

---

[1] Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, http://www.cynulliadcymru.org/bus-docs-third-standingorders.pdf (118 tudalen)

[2] Y Mesur Arfaethedig ynghylch Prydau Ysgol Iachach, Cyf: MB-005, gwybodaeth cyn y balot, http://www.cynuliladcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislative-ballots/business-measures-ballot-26-06-07/business-measures-mb-005.htm

## 2. Cefndir deddfwriaethol

2.1 Mae cyd-destun cyfansoddiadol y cynnig hwn wedi'i osod allan yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau deddfu ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.2 Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn golygu bod Aelodau meinciau cefn y Cynulliad, yn ogystal â Llywodraeth y Cynulliad, yn cael cyflwyno Mesurau Cynulliad lle mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn maes polisi.

2.3 Mae'r prif bŵer sy'n galluogi'r Cynulliad i wneud Mesur ynghylch bwyta'n iach mewn ysgolion wedi'i gynnwys ym Mater 5.9 yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 -

> *Matter 5.9*
>
> *Provision about food and drink provided on school premises or provided for children at a place where they receive education or childcare.*

2.4 Mae'r Mater a ganlyn hefyd yn berthnasol i'r broses o hybu bwyta'n iach mewn ysgolion yn fwy cyffredinol –

> *Matter 5.4*
>
> *Provision about the curriculum in schools maintained by local education authorities.*

2.5 Pwerau fframwaith oedd y pwerau yn Materion 5.4 a 5.9 a oedd wedi'u cynnwys yn adran 178 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn wreiddiol, a chawsant eu trosglwyddo'n bwerau i wneud Mesurau gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosglwyddo Pwerau Fframwaith) 2007. [3]

---

[3] Gwefan Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosglwyddo Pwerau Fframwaith) 2007

## 3. Diben ac amcanion polisi

3.1 Y diben cyffredinol yw medru datblygu a gweithredu polisi cynhwysfawr "wedi'i wneud yng Nghymru" ynghylch maeth mewn ysgolion. Amcan y Mesur hwn yw cael polisi cyfannol, cynhwysfawr, wedi'i wneud yng Nghymru, ynghylch maeth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod maeth iach yn cael ei gynnal ym mhob cam o'r broses addysg.

3.2 Mae'r Mesur arfaethedig yn ymdrin â mwy na dim ond y bwyd sy'n cael ei fwyta mewn ysgolion. Mae'n adlewyrchu'n angen i addysgu plant ifanc a'u dysgu i fwynhau bwydydd gwahanol. Y bwriad yw gosod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i hybu bwyta'n iach yn gyffredinol, ac mae i hynny oblygiadau o ran y cwricwlwm.

3.3 Bydd cyfrifoldeb ar bob lefel, gan osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, cyrff llywodraethu, penaethiaid ac awdurdodau addysg lleol i hybu bwyta'n iach mewn ysgolion. Bydd yn ofynnol i gyrff llywodraethu hefyd gynnwys bwyta'n iach yn eu hadroddiad blynyddol.

3.4 Dylai bwyta'n iach a maeth da mewn ysgolion fod yn rhan o'r drefn arolygu ac mae'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion gyflwyno adroddiad blynyddol am y cynnydd a wnaed o ran gwella maeth mewn ysgolion ac o ran gwella safonau.

3.5 Bydd y Mesur arfaethedig hefyd yn gosod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i annog rhagor o ddisgyblion i fwyta prydau ysgol yn gyffredinol ac i wneud yn siŵr bod cynifer â phosibl o'r rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn eu bwyta. Rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol hefyd gymryd camau rhesymol i ofalu bod enwau'r plant hynny sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cael eu diogelu.

3.6 Nid yw'r Mesur, fodd bynnag, yn manylu ar gynnwys y bwyd sy'n cael ei wieni mewn ysgolion ac nid yw'n pennu faint o fraster, siwgr, halen nac ychwanegion artiffisial y dylid eu cynnwys. Rhaid i Weinidog wneud hyn drwy reoleiddio, gan fod y gofynion a'r canllawiau'n ymwneud â maeth yn newid o un flwyddyn i'r llall. Disgwylir y caiff y broses o godi safonau maeth iach ei chyflwyno'n raddol, yn rhannol oherwydd bod profiadau ysgolion Lloegr a'r Alban yn dangos mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno bwydydd iach.

3.7 Yn olaf, mae'r Mesur arfaethedig yn cydnabod ei bod yn bwysig sicrhau bod dŵr yfed ar gael i bob plentyn.

## Cyd-destun y Polisi:

### Cymru: *Ymgynghoriad a Chynllun Gweithredu Blas am Oes* Llywodraeth Cynulliad Cymru

3.8 Cafwyd ymgynghoriad eang ynghylch dogfen *Blas am Oes*[4] Llywodraeth Cynulliad Cymru rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2006. Yn gyffredinol, cafwyd ymateb cadarnhaol i'r rhan fwyaf o'r argymhellion[5] a oedd yn cynnwys mabwysiadu'r safonau maeth a nodwyd ar gyfer darparu bwyd ysgol (cynnig 1) a bod yn rhaid i fyrbrydau mewn ysgolion fod â budd amlwg o ran maeth (cynnig 10).

3.9 Yn dilyn yr ymgynghoriad, cafodd *Cynllun Gweithredu Blas am Oes*[6] Llywodraeth Cynulliad Cymru ei lansio ar 22 Tachwedd 2007. Mae saith maes blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu gan gynnwys gweithredu safonau newydd ar gyfer maeth, bwyd a diod mewn pedair ardal beilot ac adolygu, datblygu a sefydlu rhaglenni monitro a gwerthuso i hybu polisïau ysgol gyfan ar gyfer gwella bwyd a maeth.

3.10 Byddai'r Mesur arfaethedig yn cynnwys nifer o argymhellion y cynllun *Bwyd am Oes* ac yn rhoi statws statudol iddynt.

### Lloegr

3.11 Cyhoeddodd Llywodraeth y DU safonau newydd ar gyfer bwyd ysgol yn Lloegr[7] ym mis Mai 2006 sy'n cynnwys yr holl fwyd sy'n cael ei werthu neu ei weini mewn ysgolion. Mae'r safonau maeth yn cael eu rhoi ar waith mewn tair rhan, i'w cyflwyno'n raddol erbyn mis Medi 2009. Mae rhagor o wybodaeth am bolisïau bwyta'n iach ac ariannu cynlluniau yn Lloegr ar gael yn yr Atodiad i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (rhan 2).

### Yr Alban

3.12 Mae Senedd yr Alban wedi cyflwyno Deddf sy'n debyg iawn o ran polisi i'r Mesur arfaethedig hwn.

3.13 Mae *Schools (Health Promotion and Nutrition) (Scotland) Act 2007*[8] yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau addysg i ofalu bod y bwyd a'r diod y maent yn eu darparu'n bodloni'r gofynion maeth a bennwyd gan Weinidogion yr Alban. Mae hyn yn cynnwys prydau ysgol a bwyd sy'n cael ei werthu yn siop yr ysgol neu'r peiriannau gwerthu. Ni fydd y rheoliadau maeth ar gyfer bwyd a diod mewn ysgolion y dod i rym tan fis Awst 2008.

---

[4] Dogfen Ymgynghori *Blas am Oes*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, http://new.wales.gov.uk/consultations/closed/educandskillscloscons/1660794/?lang=en
[5] Papur cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru, CAB(06-07)76, *Blas am Oes*, Mawrth 2007, http://new.wales.gov.uk/docrepos/40371/288363/908911/1268444/CAB(06-07)76-Appetite.doc?lang=en
[6] Datganiad i'r Wasg gan Llywodraeth Cynulliad Cymru, 22 Tachwedd 2007, http://new.wales.gov.uk/news/presreleasearchive/221107persuasion/?lang=en
[7] *Education (Nutritional Standards for School Lunches) (England) Regulations 2006* (SI2006/2381)
[8] *Schools (Health Promotion and Nutrition) (Scotland) Act 2007* (2007 asp 15)

## 4. Ymgynghori

4.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynglyn â'r Mesur arfaethedig rhwng 18 Ionawr a 29 Chwefror 2008. Yn ogystal â chyhoeddi'r dogfennau ymgynghori ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cawsant eu hanfon hefyd at dros 200 o randdeiliaid allweddol gan gynnwys sampl o ysgolion.

4.2 Dyma gwestiynau'r ymgynghoriad:

1. Ydych chi'n meddwl y bydd y Mesur arfaethedig yn hybu dull cyfannol "ysgol gyfan" o drin bwyta'n iach? A oes unrhyw bwerau ychwanegol y gellid eu cynnwys yn y Mesur i hybu'r dull hwn ymhellach mewn ysgolion?

2. Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer Rheoliadau a fydd yn manylu ar safonau o ran maeth y bydd Gweinidogion Cymru'n eu cyflwyno. Ydych chi'n meddwl y bydd y dull cynyddrannol hwn o weithredu'n sicrhau na fydd cyflymder y diwygiadau'n estroni plant, phobl ifanc a rhieni?

3. A oes unrhyw bwerau ychwanegol y dylid eu hychwanegu at y Mesur arfaethedig a fyddai'n gwella bwyta'n iach ymhellach mewn ysgolion?

4. A yw'r Mesur arfaethedig yn hybu'n foddhaol egwyddorion datblygu cynaliadwy yn narpariaeth bwyd ysgol iach?

5. Ydych chi'n cytuno â'r dyletswyddau, y cyfrifoldebau a'r gofynion adrodd a gynigir yn y Mesur ar gyfer penaethiaid a llywodraethwyr? A fydd y gofynion hyn yn sicrhau y ceir cynnydd â gwella bwyta'n iach mewn ysgolion?

6. Ydych chi'n meddwl bod y dyletswyddau, y cyfrifoldebau a'r gofynion adrodd a gynigir ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, Awdurdodau Addysg Lleol a'r Prif Arolygydd Ysgolion yn ddigonol i gael effaith gadarnhaol ar weithredu a monitro bwyta'n iach mewn ysgolion?

7. Fe ddaw cost ariannol o ganlyniad i'r cynigion yn y Mesur i ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Addysg Lleol, ysgolion ac, i raddau llai, Estyn. A fydd y cynigion hyn yn golygu y daw costau ariannol i ran eich sefydliad chi, ac os felly, beth fydd y costau hyn? (dywedwch faint fydd y costau).

4.3 Cafwyd 11 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd y sylwadau a gafwyd yn yr holl ymatebion yn ddefnyddiol ac thrafodwyd pob ymateb yn ofalus. Wrth drafod yr ymatebion, daeth yn amlwg fod

nifer o themâu allweddol yn codi. O ganlyniad, gwnaed pedwar o newidiadau i'r Mesur arfaethedig.

4.4 Cafwyd nifer fawr o sylwadau hefyd a oedd y tu allan i gwmpas y Mesur, er eu bod yn ddilys yng nghyd-destun gwella iechyd plant. Byddai'n fwy priodol cynnwys rhai o'r materion a godwyd yn y Rheoliadau a all ddilyn o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig, a byddai'n fwy priodol cynnwys sylwadau eraill mewn canllawiau. Mater i Weinidogion Cymru fydd cynnwys y rheoliadau ac unrhyw ganllawiau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn Cynulliad priodol.

4.5 Dyma'r pedwar newid a wnaed i'r Mesur arfaethedig o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus:

i. **Ymgynghori'n ehangach**

Y bwriad, bob amser, oedd ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid allweddol er enghraifft disgyblion, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr ayyb gan gydnabod mai gweithio mewn partneriaeth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno newidiadau'n llwyddiannus.

O ganlyniad i'r ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, penderfynwyd ffurfioli'r polisi hwnnw drwy gynnwys dyletswydd newydd ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid yn adran 1(3) (c) o'r Mesur arfaethedig i ymgynghori â chynghorau ysgol o bryd i'w gilydd ac i ystyried eu barn.

ii **Ymgynghori cyn gwneud rheoliadau**

Mae dyletswydd newydd wedi'i rhoi ar Weinidogion Cymru hefyd i gymryd camau i ganfod barn disgyblion cyn gwneud rheoliadau'n ymwneud â gofynion maeth bwyd ysgol ac i ymgynghori â phobl eraill fel ag y bo'n briodol (Adran 7(12)).

iii **Dŵr yfed mewn ysgolion**

Oherwydd y teimladau cryf a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad, mae sicrhau bod dŵr yfed ar gael bob amser yn awr yn ddyletswydd yn y Mesur, yn hytrach na'n fater i'w gynnwys mewn rheoliadau (Adran 8).

iv **Dyletswydd cyrff llywodraethu a phenaethiaid i gyflwyno adroddiadau**

Yn olaf, mae adran 4 o'r Mesur arfaethedig wedi'i newid i roi dyletswydd ar gyrff llywodraethu i gyflwyno adroddiad am fwyta'n iach mewn ysgolion fel rhan o'u hadroddiad blynyddol presennol (Adran 30 o Ddeddf Addysg 2002). Bwriedir i hyn fod yn ffordd llai beichus, ond yr un mor effeithiol, o adrodd ar welliannau a chynnydd. Mae hyn yn dileu'r ddyletswydd flaenorol ar benaethiaid i gyflwyno adroddiad

blynyddol ar gynnydd i gyrff addysg lleol, rhieni, y corff llywodraethu a'r cyhoedd.

4.6 Nid yw'r sylwadau a ganlyn, a gynigiwyd yn ystod yr ymgynghoriad, yn dod o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig, er enghraifft

- annog plant a phobl ifanc i wneud rhagor o weithgaredd corfforol;
- creu ardaloedd dan waharddiad y tu allan i gatiau ysgolion i rwystro faniau bwyd symudol rhag parcio ger ysgolion;
- gwella toiledau ysgolion;
- caffael bwyd a gynhyrchir/cyflenwir yn lleol; a
- chyfyngu ar y rheini sy'n mynd oddi ar dir yr ysgol yn ystod amser cinio.

4.7 Er bod llawer o'r sylwadau a gynigiwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn ddilys, byddai'n fwy priodol eu cynnwys mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru neu yng nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, er enghraifft

- gofalu bod bob agwedd ar ofynion maeth yn cael ei hystyried, er enghraifft, llysieuwyr/feganiaid, gofynion diet diwylliannol neu grefyddol ayyb;
- cynnwys dietegwyr a maethegwyr;
- polisïau Bwyd a Ffitrwydd ysgolion;
- hyfforddiant ychwanegol i staff arlwyo a gwella cyfleusterau cegin/ffreutur;
- y goblygiadau o ran y cytundebau presennol.

4.8 Roedd y materion a ganlyn yn peri pryder;

- y meini prawf i'w defnyddio wrth werthuso ac arolygu cynnydd a gwelliant o ran polisïau ysgolion;
- a yw'n rhesymol disgwyl i benaethiaid fod yn gyfrifol am wella safonau os nad ydynt yn rheoli'r cyllid ar gyfer prydau ysgol;
- y meini prawf y gallai Estyn eu defnyddio yn eu harolygiadau;
- y baich gweinyddol posibl ar benaethiaid .

4.9 Byddai rheoliadau'n ymdrin â llawer o'r materion hyn. Mae'r penderfyniad i gynnwys yr adroddiad blynyddol am fwyta'n iach fel rhan o'r drefn bresennol ar gyfer cyflwyno adroddiadau (gweler 4.5 iv) wedi delio'n rhannol â'r pryder ynglyn â'r baich ar benaethiaid.

## 5. Pŵer i wneud Is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau cyfyngedig i Weinidogion Cymru weithredu a nodi'r manylion y mae eu hangen i gefnogi'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn Mesur arfaethedig.

5.2 Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio amrywiaeth o Ddeddfau Seneddol ac offerynnau statudol o ganlyniad i'r newidiadau y mae eu hangen oherwydd y rheoliadau. Mae cwmpas y pwerau hyn wedi'i gyfyngu gan faint y pŵer i wneud Mesurau i ddiwygiadau a fydd yn ganlyniad i gyflwyno'r Mesur.

### Adran 1 – Dyletswyddau mewn perthynas â hybu bwyta'n iach mewn ysgolion

5.3 Mae is-adran (3)(a) yn darparu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch sut y dylai awdurdodau arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n hybu bwyta'n iach mewn ysgolion, neu yn ystod unrhyw weithgareddau atodol fel ymweliadau, teithiau cerdded ac ati.

5.4 Ystyriwyd ei bod yn briodol darparu'r pŵer hwn i ofalu bod rhywfaint o gysondeb yn y ffordd y caiff y ddyletswydd ei chymhwyso.

5.5 Gan mai cyhoeddi canllawiau yw'r lefel isaf o bŵer dirprwyedig, nid yw'n briodol cymhwyso unrhyw un o weithdrefnau'r Cynulliad iddo, er bod hwn yn fater y gall Gweinidogion gyfeirio ato yn eu Hadroddiad Blynyddol i'r Cynulliad o dan adran 6.

### Adran 7 - Gofynion ynglŷn â bwyd a diod a ddarperir ar fangre ysgol ac ati.

5.6 Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â bwyd a diod a ddarperir ar fangre ysgol.

5.7 Yn unol ag adran 114A bresennol o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, y mae'r adran hon wedi'i seilio arni, bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion i wneud rheoliadau newydd pa bryd bynnag y ceir cyngor arbenigol mewn perthynas â'r hyn sy'n briodol.

5.8 Byddai'r weithdrefn negyddol yn gymwys, fel y mae ar hyn o bryd o dan adran 114A. Mae hyn yn sicrhau rhywfaint o graffu ar ran y Cynulliad, heb orfod chwilio am amser yn y Cyfarfod Llawn pan ystyrir ei bod yn briodol adolygu'r safonau.

**Adran 10 – Diogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim**

5.9 Mae is-adran 10(6) yn darparu i Weinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau addysg lleol mewn perthynas â diogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim.

5.10 Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl awdurdodau'n elwa o arfer da a gaiff ei ddatblygu mewn perthynas â'r mater hwn.

5.11 Gan mai cyhoeddi canllawiau yw'r lefel isaf o bŵer dirprwyedig, nid yw'n briodol cymhwyso unrhyw un o weithdrefnau'r Cynulliad iddo, er bod hwn yn fater y gall Gweinidogion gyfeirio ato yn eu Hadroddiad Blynyddol i'r Cynulliad o dan adran 6.

**Adran 13 - Gorchmynion a rheoliadau**

5.12 Mae'r adran hon yn cynnwys y manylion a gaiff eu cynnwys fel arfer mewn Deddfau Seneddol am bwerau Gweinidogion i wneud rheoliadau.

5.13 Byddent, fel arfer, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol, gyda dau eithriad. Yn gyntaf, os yw is-ddeddfwriaeth yn cael ei chynnig i ddiwygio Deddf Seneddol neu Fesur Seneddol, byddai'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, i adlewyrchu difrifoldeb yr egwyddor o ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Yn ail, ac yn unol â'r drefn arferol, ni fyddai gweithdrefn mewn perthynas â gorchmynion cychwyn.

**Adran 14 - Pŵer i wneud darpariaethau pellach sy'n atodol neu'n galyniadol ayyb.**

5.14 Darpariaeth yw hon i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol neu ganlyniadol er mwyn i'r Mesur fod yn gwbl effeithiol.

5.15 Mae hon yn ddarpariaeth safonol mewn Deddfau Seneddol ac, yn unol â'r drefn seneddol, bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac eithrio mewn amgylchiadau a amlinellir yn adran 13 uchod, pan fyddai'r weithdrefn gadarnhaol yn berthnasol.

## 6. Cymhwysiad tiriogaethol

Bydd y Mesur yn gymwys i Gymru. Bydd yn trosglwyddo swyddogaethau i Weinidogion Cymru, awdurdodau addysg lleol Cymru a phenaethiaid ysgolion Cymru. Gan hynny, bydd yn effeithio ar ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion yng Nghymru, ond nid disgyblion o Gymru sy'n mynychu ysgolion yn Lloegr.

# Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## 7. Dewisiadau

7.1 Mae pwysigrwydd hybu a monitro bwyta’n iach mewn ysgolion yng Nghymru, Lloegr a’r Alban yn cael ei gydnabod yn gyffredinol gan lywodraethau, rhanddeiliaid allweddol a’r cyhoedd.

7.2 O ganlyniad i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, mae cyfle i Gymru ddefnyddio pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fabwysiadu agwedd gyfannol tuag at fwyta’n iach mewn ysgolion ac i fonitro’r gwaith o wella maeth disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol yng Nghymru.

Dyma’r dewisiadau sydd ar gael ar hyn o bryd:

**Dewis 1:** Gwneud dim

**Dewis 2:** Parhau i ddefnyddio’r pwerau deddfu presennol

**Dewis 3:** Cyflwyno Mesur Cynulliad.

**Dewis 1: Gwneud dim**

7.3 Nid yw gwneud dim i hybu a chefnogi bwyta’n iach mewn ysgolion yn ddewis derbyniol i lawer o randdeiliaid allweddol nac i lawer o bobl yn gyffredinol. Roedd hyn yn amlwg, er enghraifft, yn yr ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus *Blas am Oes* Llywodraeth Cynulliad Cymru.

7.4 Byddai gwneud dim i wella bwyta’n iach mewn ysgolion yn effeithio’n andwyol ar iechyd a lles ein plant a phobl ifanc; mae’n debygol o effeithio’n andwyol ar eu gallu i ganolbwyntio ac yn debygol o ychwanegu at gostau’r gwasanaeth iechyd.

7.5 Yn ei Adroddiad Blynyddol 2006[9], mae’r Prif Swyddog Meddygol yn sôn am ei bryderon am y cynnydd mewn gordewdra

> Rwy’n bryderus ynghylch y cyfraddau ysmygu cymharol uchel cyson yng Nghymru a hefyd y cynnydd yn nifer yr achosion o ordewdra. Mae ysmygu a gordewdra yn ddau ffactor sy’n cyfrannu at ein cyfraddau cymharol uchel o glefyd y galon a strôc yng Nghymru.
> .

ac Mae angen mynd i’r afael â’r epidemig cynyddol o ordewdra mewn plant ac oedolion yn strategol drwy weithio ar yr holl ffactorau sy’n cyfrannu at ein cymdeithas ordew sy’n annog ffordd eisteddog o fyw, a gorddefnydd o fwydydd cyfleus a diodydd llawn siwgr.

a Gall bod dros bwysau neu’n ordew gynyddu risgiau llawer o gyflyrau iechyd, gan gynnwys pwysau gwaed uchel, diabetes, clefyd y galon a strôc. Ac nid dim ond ag oedolion y mae a wnelo hyn - yn ddiweddar, cafwyd tystiolaeth gynyddol o lefel gynyddol o ordewdra ymhlith plant. Yn arbennig, noda

[9] Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2006, http://new.wales.gov.uk/dphhp/publication/cmo/reports/report2006/reporte.pdf?lang=en

astudiaethau *Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol* yr heriau penodol y mae Cymru yn eu hwynebu yn y maes hwn.

**Dewis 2: Defnyddio'r pwerau deddfu presennol**

7.6 Mae'r dewis hwn yn dibynnu ar ddefnyddio'r pwerau deddfu presennol gan gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Gwnaed cynnydd yn y cyswllt hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei pholisïau *Blas am Oes*.

7.7 Yng *Nghynllun Gweithredu Blas am Oes* Llywodraeth Cynulliad Cymru, Tachwedd 2007[10] nodwyd saith maes blaenoriaeth allweddol gan gynnwys cyflwyno safonau wedi'u seilio ar faeth, datblygu a gwneud y defnydd gorau bosibl o staff a chyfarpar arlwyo a datblygu strategaethau marchnata. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn treialu prosiect dwy flynedd gyda phedwar awdurdod lleol i ddatblygu a phrofi'r canllawiau ar gyfer rhoi'r safonau bwyd a maeth ar waith.

**Dewis 3: Cyflwyno mesur**

7.8 Y trydydd dewis, sef yr un a gynigir yn y Mesur hwn, yw'r unig ddewis a fyddai'n dwyn ynghyd y ddeddfwriaeth bresennol ac yn gosod polisi cyfannol ynghylch bwyta'n iach mewn ysgolion mewn deddfwriaeth sylfaenol. Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o wella bwyta'n iach, ac i feithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd bwyta'n iach, ym mhob ysgol a gynhelir gan awdurdodau lleol.

7.9 Yn bwysicaf oll, dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro a gwerthuso'r cynnydd tuag at y nod hwn, i sicrhau bod systemau adrodd a monitro cadarn ac effeithiol yn cael eu rhoi ar waith ac i sicrhau bod y cynnydd a wneir o ran bwyta'n iach yn parhau pan fydd blaenoriaethau eraill yn y system addysg yn cystadlu yn erbyn y polisi hwn.

7.10 Drwy osod mewn deddfwriaeth sylfaenol yr angen i fonitro a chyflwyno adroddiadau am y cynnydd a wneir o ran bwyta'n iach, bydd modd sicrhau cysondeb a gwelliant parhaus ar hyd a lled Cymru.

---

[10] *Cynllun Gweithedu Blas am Oes*, gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, http://cymru.gov.uk/dcells/publications/policy_strategy_and_planning/1948607/2028741/appetiteforlifeactionplan2-e.pdf?lang=en

# 8 Amcangyfrif o'r Costau

## Amcangyfrif o'r Costau: Dewis 1 – gwneud dim

8.1 Gallai gwneud dim gael effaith ariannol ddifrifol ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r economi yn y tymor hir. Mae lefelau gordewdra yng Nghymru, y DU, Ewrop a thrwy'r byd wedi bod yn cynyddu'n gyflym. Yn y DU, mae achosion o'r cyflwr bron wedi treblu ers 1980. Mae'r goblygiadau iechyd sy'n deillio o ordewdra yn cynnwys diabetes math 2, pwysedd gwaed uchel, afiechyd cardiofasgwlaidd ac osteo-arthritis.[11] Yng Nghymru, canfuwyd bod 29 y cant o bobl rhwng 16 a 24 oed dros bwysau neu'n dioddef o ordewdra, a bod 27 y cant o bobl 65 oed a hŷn yn cael triniaeth am ddiabetes.[12]

8.2 Mae costau gofalu am bobl sydd â chlefydau cronig yn uchel, er bod dod o hyd i dystiolaeth fesuradwy yn anodd. Mae adroddiad gan y Comisiwn Gofal Iechyd yn 2007 yn rhoi amcangyfrif o gostau gofal diabetes yn Lloegr.[13] Mae'r adroddiad yn datgan bod yr amcangyfrifon ar gyfer 2007/2008 yn awgrymu y gallai cyfanswm y gwariant ar ddiabetes fod mod uchel â 10 y cant o holl wariant disgwyliedig y GIG (sydd tua £92 biliwn). Mae hyn golygu y caiff £9 biliwn ei wario bob blwyddyn ar ofalu am bobl sy'n dioddef o ddiabetes, sy'n £25 miliwn y diwrnod yn Lloegr.

8.3 Mae diabetes sy'n gysylltiedig â phroblemau arennol yn dod yn fwy cyffredin, yn rhannol oherwydd gordewdra.[14] Yn y DU, mae nifer y bobl sy'n cael eu trin am fethiant yr arennau yn cynyddu rhyw 7 y cant bob blwyddyn.[15] Mae methiant yr arennau'n gysylltiedig ag oedran, a diabetes a phwysedd gwaed uchel yw'r prif gyflyrau sy'n ei achosi. Yn 2006/07, buddsoddodd y GIG yng Nghymru £26.6 miliwn ar ddialysis arennol.[16]

8.4 Mae diabetes hefyd cael effaith ar y gwariant ar wasanaethau cymdeithasol. Amcangyfrifir bod y gost o ofalu am bobl sy'n dioddef o gymhlethdodau hirdymor bedair gwaith yn uwch na gofalu am bobl sydd heb broblemau o'r fath.

## Amcangyfrif o'r Costau: Dewis 2 – defnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol a sicrhau cydweithrediad rhanddeiliaid allweddol

8.5 Mae'r dewis hwn yn glynu'n gaeth wrth bolisïau presennol a *Chynllun Gweithredu Blas am Oes* Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, nid oedd costio'r holl strategaeth bresennol yn hawdd. Sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad y Gweithgor Bwyd mewn Ysgolion er mwyn canfod y costau a chynghori ar elfennau eraill o'r strategaeth. Sylweddolodd y gweithgor yn fuan

---

[11] Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, Tackling Obesity in Wales, Gorffennaf 2007, http://www.wales.nhs.uk/sites3/news.cfm?orgid=719&contentid=7165

[12] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Arolwg Iechyd Cymru 2005/06, http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/publications/health-survey200506/?lang=cy

[13] Y Comisiwn Gofal Iechyd, Managing Diabetes, Gorffennaf 2007, http://www.healthcarecommission.org.uk/_db/_documents/Managing_Diabetes_1_200707300356.pdf

[14] GIG Cymru, *Cynllun i Fynd i'r Afael â Chlefyd Arennol yng Nghymru*, 2007, http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgId=434&id=81459

[15] Yr Adran Iechyd, *Saving Lives, Valuing Donors: a Transplant Framework for England*, 2003 http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_4006700

[16] Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, MRS080484, ffynhonnell: Comisiwn Iechyd Cymru

iawn, fodd bynnag, pa mor anodd yw rhoi amcangyfrif manwl o'r costau sydd ynghlwm wrth hybu bwyta'n iach mewn ysgolion, a hynny'n bennaf oherwydd prinder data sylfaenol yng Nghymru.

8.6 Caiff cyfran sylweddol o gostau polisïau bwyta'n iach mewn ysgolion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ei wario ar sicrhau safonau maeth uwch, yn enwedig os yw'r rhain yn cael eu cyflwyno ym mhob ysgol ac awdurdod lleol.

8.7 Mae'r Mesur arfaethedig hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau ar safonau maeth ar ddyddiad diweddarach. Disgwylir gwneud cynnydd graddol drwy'r Rheoliadau hyn, ac o ganlyniad bydd y costau'n cynyddu'n raddol hefyd. Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar hyn ac yn rhoi'r camau ar waith.

8.8 Ceir gwybodaeth am y costau ac am gyflwyno safonau maeth llymach yn Lloegr a'r Alban yn Atodiad A. Mae Atodiad A hefyd yn cynnwys amcangyfrif o gostau cyflwyno safonau maeth uwch drwy Gymru gyfan, a gyfrifwyd gan y Gweithgor Bwyd mewn Ysgolion yn 2006.

**Y cyllid presennol yng Nghymru**

8.9 Ar hyn o bryd, telir am brydau ysgol drwy gyfuniad o wariant gan awdurdodau lleol, neu ysgolion sydd â chyllidebau dirprwyedig, a rhieni a gofalwyr. Awdurdodau lleol sy'n talu am brydau ysgol am ddim.

8.10 Mae awdurdodau lleol yn cael cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer costau prydau ysgol a phrydau ysgol am ddim, a hynny'n bennaf drwy'r Grant Cynnal Refeniw blynyddol, sydd yn arian heb ei neilltuo. Mae'r cyllid y mae awdurdodau lleol yn ei gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer prydau ysgol am ddim yn adlewyrchu lefelau amddifadedd. Fel rheol, mae cyfran yr arian sy'n cael ei roi i ysgolion o gyllidebau awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth i nifer y prydau ysgol am ddim.

8.11 Ers mis Ebrill 2000, mae Awdurdodau Addysg Lleol (AALl) yng Nghymru wedi dirprwyo cyllid ar gyfer prydau ysgol i bob ysgol uwchradd, a gallant hefyd ddirprwyo cyllid ar gyfer prydau ysgol i ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Pan fydd gan ysgol gyllideb ddirprwyedig ar gyfer prydau, i bob pwrpas bydd gan gorff llywodraethu'r ysgol yr un cyfrifoldeb â'r AALl dros y ddarpariaeth honno.

8.12 Mae gan ysgolion sydd â chyllidebau dirprwyedig yr hawl i brynu gwasanaethau arlwyo'r AALl yn ôl os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Drwy'r contract prydau ysgol, y darparwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y corff sy'n dyfarnu'r contract yw darparu prydau ysgol (h.y. y AALl neu gorff llywodraethu'r ysgol).

8.13 Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno polisïau bwyta'n iach mewn ysgolion. O ganlyniad, mae'r costau y bydd gwahanol awdurdodau lleol yn eu talu'n amrywio'n sylweddol, sy'n ei gwneud hi'n hynod o anodd cyfrifo'r gost i Gymru gyfan ar y sail hon.

8.14 Ym mis Tachwedd 2007, cyhoeddodd y *Cynllun Gweithredu Blas am Oes* y byddai prosiect ymchwil dwy flynedd gyda phedwar awdurdod lleol yn dechrau ym mis Medi 2008. Y nod fyddai datblygu a phrofi'r canllawiau ar gyfer y safonau bwyd a maeth a gynigiwyd yn y cynllun gweithredu, yn

ogystal â dysgu gwersi o'r prosiect hwn ar gyfer rhoi camau ehangach ar waith ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

8.15 Ynghyd â'r prosiectau hyn, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cyllid drwy gynllun grant penodol er mwyn cynorthwyo'r ysgolion hynny na fydd yn rhan o'r prosiect ymchwil ond sy'n dymuno mabwysiadu'r safonau newydd a gynigir yn y *Cynllun Gweithredu Blas am Oes*. Bydd hyn ar gael yn ardal pob awdurdod.

8.16 Dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd £6.6 miliwn ar gael dros ddwy flynedd er mwyn cynnal y prosiectau peilot a gyhoeddwyd yn y *Cynllun Gweithredu Blas am Oes* a'r cynllun Grant Blas am Oes.

8.17 Roedd y *Cynllun Gweithredu Blas am Oes* hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i ariannu meddalwedd dadansoddi maeth; grantiau i hyfforddi staff arlwyo ysgolion; cefnogaeth i gynlluniau i hybu polisi ysgol gyfan; a datblygu polisïau bwyd a ffitrwydd ysgol gyfan (drwy'r Gronfa Ysgolion Gwell).

**Amcangyfrif o'r Costau: Dewis 3 – Cyflwyno Mesur**

8.18 Mae'r amcangyfrif o'r costau sydd yn y ddogfen ymgynghori a'r Cynllun Gweithredu *Blas am Oes,* ynghyd â chymariaethau â Lloegr a'r Alban (manylion yn Atodiad A), yn rhoi syniad cyffredinol o gostau tebygol y polisïau i hybu bwyta'n iach. Fodd bynnag, mae mwyafrif y costau yn yr Alban a Lloegr yn deillio o gyflwyno safonau maeth uwch ar gyfer prydau ysgol a bwydydd eraill a ddarperir mewn ysgolion.

8.19 Nid yw'r Mesur hwn ei hun yn pennu safonau maeth ar gyfer bwyd mewn ysgolion, ond mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau maeth drwy Reoliadau (adran 7).

8.20 Disgwylir y byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud cynnydd graddol wrth bennu safonau maeth, yn seiliedig ar brofiadau Lloegr a'r Alban. Os dilynir y dull hwn, yna byddai'r costau dilynol yn cynyddu'n raddol hefyd.

8.21 Mae'r amcangyfrifon canlynol yn amcangyfrifon o'r **costau uniongyrchol** a allai ddeillio o'r Mesur arfaethedig. Efallai hefyd y bydd costau anuniongyrchol yn deillio o'r Rheoliadau y gallai Gweinidogion Cymru eu gwneud yn sgil y Mesur. Ceir amcangyfrif o'r costau posibl a fyddai'n deillio o'r Rheoliadau yn Atodiad A.

**Amcangyfrif manylach o'r costau ar gyfer dewis 3**

Hybu Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Adran 1)

8.22 Mae'r Mesur arfaethedig hwn yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru, Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru, cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol yng Nghymru i hyrwyddo bwyta'n iach ymhlith disgyblion cofrestredig.

8.23 Mae nifer o strategaethau eisoes ar y gweill o ganlyniad i bolisïau a chynllun Gweithredu *Blas am Oes* Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae costau'r

cynlluniau hyn eisoes wedi'u cynnwys yng nghyllidebau *Blas am Oes* Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Enghreifftiau o gynlluniau bwyta'n iach mewn ysgolion sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd:

8.24 Anfonodd Is-adran Gwella Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau i bob ysgol ym mis Medi 2007 ynghylch sut i ddatblygu a gweithredu polisi bwyd a ffitrwydd ysgol gyfan, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Anogir ysgolion i gyflwyno'r polisi hwn erbyn mis Medi 2008 a cheir cyllid ar hyn o bryd drwy Gronfa Ysgolion Gwell Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer paratoi a rhoi'r polisi hwn ar waith yn fuan mewn ysgolion.

8.25 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cyllid i gyflogi cydlynydd *Blas am Oes* am ddwy flynedd. Rhan bwysig o waith y cydlynydd *Blas am Oes* fydd datblygu strategaeth gyfathrebu a marchnata er mwyn rhoi *Blas am Oes* ar waith yn lleol ac yn genedlaethol.

8.26 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi achredu cymhwyster newydd i staff sy'n paratoi ac yn darparu prydau ysgol. At hynny, roedd cyllid grant o £1.2m ar gael i awdurdodau addysg lleol rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2007, ac mae £0.6m ar gael rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2008 er mwyn rhoi hyfforddiant i staff arlwyo ysgolion (gan gynnwys arlwywyr ysgolion nad ydynt yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol) ynghylch bwyta'n iach a sgiliau coginio ymarferol. Bydd hyn yn eu galluogi i baratoi bwydydd iachach a hybu dewisiadau iachach yn yr ysgolion.

Ar raddfa lai:

8.27 Mae Bws Coginio yn ymweld ag ysgolion cynradd i roi gwersi coginio i ddisgyblion, sesiwn hyfforddiant i athrawon, a sesiwn goginio i rieni plant ifanc ym mhob lleoliad.

8.28 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag Urdd Gobaith Cymru i gynnal cystadleuaeth goginio fel rhan o'r cwricwlwm yn Eisteddfod yr Urdd.

8.29 Ar hyn o bryd, mae'r gweithgareddau hyn i gyd yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

8.30 Nid oes yn rhaid i'r holl weithgareddau sy'n hybu bwyta'n iach mewn ysgolion olygu costau. Disgwylir y bydd awdurdodau lleol ac ysgolion yn defnyddio syniadau arloesol a newydd o hybu bwyta'n iach, a hynny mewn ffyrdd sy'n addas ac yn berthnasol i'w disgyblion eu hunain. Efallai y bydd gan awdurdodau lleol gostau is o ganlyniad i bolisïau bwyta'n iach, a gellid defnyddio'r arbedion hyn i ariannu'r syniadau sy'n arwain at gostau.

8.31 Amcangyfrifodd Gweithrediaeth yr Alban mai'r gost o annog dewisiadau iachach yw tua £4.2 miliwn. Seiliwyd hyn ar gost ychwanegol o rhwng 5c a 10c ar gyfer pob pryd, er mwyn talu am gostau cynlluniau hyrwyddo, darparu dŵr, ffrwythau a bara, labelu a gweithgareddau hybu.

8.32 Fel rhan o bolisïau *Hungry for Success* yn yr Alban, amcangyfrifwyd y byddai rhoi hyfforddiant ychwanegol i staff arlwyo yn holl ysgolion yr Alban a chostau staff arlwyo rhan-amser ychwanegol ym mhob ysgol uwchradd yn golygu gwariant cyhoeddus ychwanegol o tua £2.2m. Roedd y costau staff yn

cynnwys cynorthwyydd arlwyo rhan-amser ychwanegol ym mhob ysgol uwchradd yn yr Alban.

Dyletswydd Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r cwricwlwm (adran 2)

8.33 Dylai'r gwariant hwn ddod o gyllidebau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

8.34 Ym mis Hydref 2007, cyflwynodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y cwricwlwm ysgol diwygiedig, a fydd yn cael ei roi ar waith ym mis Medi 2008. Dywed y Gweinidog y bydd y cynlluniau yn cryfhau addysg bwyd yn sylweddol yng nghwricwla Dylunio a Thechnoleg, Addysg Gorfforol a Sgiliau Personol a Chymdeithasol yng Nghymru, a hynny yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.

8.35 Yng nghwricwlwm arfaethedig y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 - 7 oed, un o'r saith maes dysgu yw *Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.* Bydd hyn yn rhoi cyfle i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o ymarfer corff a hylendid, a dysgu bod y mathau cywir o fwyd a diod yn bwysig ar gyfer cyrff iach. Mae'r maes dysgu sy'n ymwneud â datblygiad corfforol yn cynnwys adran ar iechyd, ffitrwydd a diogelwch.

8.36 Bydd deunydd cefnogi i ysgolion yn cael ei greu yn 2008 i gyd-fynd â'r cwricwlwm diwygiedig, a bydd y ddogfen *Bwyd yn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru* yn cael ei ddiwygio fel rhan o hyn.

Dyletswydd cyrff llywodraethu i gyflwyno adroddiadau (adran 4)

8.37 Fel rhan o'r strwythurau presennol ar gyfer cyflwyno adroddiadau, mae gan gorff llywodraethu'r ysgol ddyletswydd i gyflwyno adroddiadau ar y gwelliannau a'r cynnydd tuag at fwyta'n iach. Mae hyn er mwyn cadw costau'r gofyniad hwn mor isel â phosibl ond ar yr un pryd mae'n sicrhau bod y cynnydd yn cael ei fonitro.

Swyddogaethau'r Prif Arolygydd Ysgolion (adran 5)

8.38 Ers mis Ebrill 2007, mae Estyn wedi bod yn casglu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol ynghylch bwyta'n iach mewn ysgolion. Fel rhan o'u harolygiadau, bydd yr arolygwyr yn edrych a oes gan yr ysgol drefniadau addas sy'n annog ac yn galluogi dysgwyr i fod yn iach.[17] Mae hyn yn sicrhau bod y trefniadau arolygu yn bwrw golwg eang ar fyw'n iach, gan gynnwys gweithgarwch a ffitrwydd corfforol yn ogystal â bwyta ac yfed. Fodd bynnag, mae adran 5 yn y Mesur arfaethedig yn mynd ymhellach, a bydd gofyn i Estyn arolygu bwyta'n iach yn benodol mewn ysgolion.

8.39 Er mwyn cyflawni gofynion yr adran, byddai angen i Estyn gyflogi person cymwys ac addas i gynnal y rhaglen arolygu a fyddai'n cynnwys y canlynol:

- cyfweld â sampl cynrychioladol o ddisgyblion;

---

[17] *Arweiniad atodol ar arolygu byw'n iach (gan gynnwys gweithgarwch corfforol a bwyd a diod) Mai 2007,* Hawlfraint y Goron, gwefan Estyn, http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Supplementary_Guidance_for_Inspecting_Healthy_Living_May_2007.pdf

- cyfweld â staff arlwyo;
- arsylwi gweithgareddau brecwast, egwyl a chinio;
- adolygu bwydlenni brecwast, byrbrydau a chiniawau ysgol yn erbyn y safonau perthnasol;
- adolygu cynnwys peiriannau gwerthu yn erbyn y safonau perthnasol;
- archwilio dogfennaeth berthnasol fel polisïau, gohebiaeth i rieni a data am werthiant bwyd a diod.

8.40 Mae Estyn wedi darparu'r cyfrifiadau canlynol sy'n seiliedig ar brofiad Arolygiaeth Addysg Ei Mawrhydi yn yr Alban, ble bydd Aseswyr Maeth Cyswllt yn ymuno â'u timau arolygu at ddibenion tebyg. Byddai'r gost yn dibynnu ar union faint a natur y sampl o arolygwyr, a fyddai'n cynnwys maethegydd.

8.41 Yn yr Alban, defnyddir maethegwyr mewn tua 25% o arolygon ysgolion cynradd, ac mewn tua 75% o arolygon ysgolion uwchradd. Mae angen tua diwrnod a hanner ym mhob ysgol gynradd (diwrnod yn arolygu a hanner diwrnod yn paratoi ac yn ysgrifennu) a dau ddiwrnod a hanner ym mhob ysgol uwchradd (diwrnod a hanner yn arolygu a diwrnod yn paratoi ac yn ysgrifennu). Felly, isafswm y gost uniongyrchol er mwyn dilyn model yr Alban (gan fwrw bod y costau staff yn £500 y diwrnod, yn ôl amcangyfrif Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ar gyfer Estyn) fyddai tua **£100,000** y flwyddyn (25% x 240 (cynradd) x 1.5 x £500 + 75% x 60 (uwchradd ac arbennig) x 2.5 x £500). Byddai cynnwys maethegydd ym mhob arolwg yn costio tua **£250,000** y flwyddyn (240 x 1.5 x £500 + x 60 x 2.5 x £500).

8.42 Nid yw'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys costau gweinyddol ychwanegol, costau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant a monitro na chostau sefydlu'r gwaith newydd hwn.

<u>Costau Monitro, Rhannu Gwybodaeth, Gwerthuso ac Arolygu yn yr Alban</u>

8.43 Amcangyfrifwyd bod y costau ychwanegol ar gyfer monitro, gweithredu, gwerthuso a rhannu arferion da yn sgil polisïau *Hungry for Success* yn yr Alban wedi arwain at wariant cyhoeddus ychwanegol o £1.0m. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â monitro safonau maeth, rhannu arferion da, arolygiadau, dadansoddi a rheoli data, monitro a gwerthuso.

<u>Adroddiadau gan Weinidogion Cymru (adran 6)</u>

8.44 Nid yw fformat yr adroddiadau hyn wedi'i nodi yn y Mesur ac felly mae'n anodd amcangyfrif costau'r adran hon. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y Gweinidog yn cyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rheolaidd ar y cynnydd a wnaed wrth gyflwyno polisïau bwyta'n iach o dan y *Cynllun Gweithredu Blas am Oes*. Felly, disgwylir y gellir cynnwys costau'r adroddiadau sy'n deillio o'r Mesur arfaethedig hwn yng nghyllidebau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

<u>Gofynion, drwy Reoliadau, ynglŷn â bwyd a diod a ddarperir ar fangre ysgol (adran 7)</u>

8.45 Nid yw'r Mesur yn rhoi manylion ynghylch cynnwys bwyd sydd i'w ddarparu mewn ysgolion, gan gynnwys faint o fraster, siwgr, halen ac ychwanegion artiffisial sydd yn y bwydydd. Gall Gweinidogion wneud hynny drwy reoliadau.

Y rheswm dros hyn yw bod y gofynion a'r canllawiau o ran maeth yn newid yn rheolaidd.

8.46 Fodd bynnag, disgwylir mai gwneud cynnydd graddol fydd y ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno safonau maeth iach. Mae'r dull hwn yn rhannol seiliedig ar wersi a ddysgwyd yn Lloegr a'r Alban. Mae hefyd yn golygu y bydd y costau'n cynyddu'n raddol, ac maent yn gwbl ddibynnol ar y safonau maeth a nodir yn y Rheoliadau.

8.47 Dywed Llywodraeth Cynulliad Cymru bod rhoi union ffigwr y gost o symud tuag at safonau maeth a bwyd yn hynod o anodd, yn enwedig o ganlyniad i brinder data sylfaenol o ansawdd da.

8.48 Mae'r wybodaeth sydd ar gael am y sefyllfa o ran darparu prydau ysgol drwy Gymru, gan gynnwys faint sy'n cael ei wario ar y cynhwysion, yn fylchog iawn. Nid yw'r wybodaeth hon ychwaith yn cael ei chasglu mewn ffordd gyson na chymharol.

8.49 Yn ôl gwybodaeth a gasglwyd yn 2006, fel rhan o ymchwil *Blas am Oes* mewn deg awdurdod lleol drwy Gymru, roedd costau cynhwysion ar gyfer pryd mewn ysgol gynradd yn amrywio rhwng 40.5c a 53.1c. Nid oedd hyn yn cynnwys costau eraill fel llafur, hyfforddiant, glanhau na chostau gweinyddol y mae angen eu hystyried wrth bennu'r gost gros o ddarparu'r pryd hwnnw.

8.50 Amcangyfrifodd Gweithrediaeth yr Alban fod y gost o sicrhau'r safonau maeth yn yr Alban yn golygu cost ychwanegol o rhwng 5 a 15 y cant ar gyfer pob pryd. Yn seiliedig ar wybodaeth o'u cyfrifiad prydau ysgol blynyddol, amcangyfrifwyd y byddai hyn yn arwain at wariant cyhoeddus ychwanegol o ryw £9.6 miliwn y flwyddyn.

Gofynion ynglŷn â chyflenwi dŵr yfed am ddim (adran 8)

8.51 Yn sgil dyletswydd yn y Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999, darparwyd oeryddion dŵr am ddim i 384 o ysgolion Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru. Darparwyd cyllid o £225,000 ar gyfer y cynllun gan Adrannau Iechyd ac Addysg y Cynulliad a Dŵr Cymru.

8.52 Mewn theori, byddai darparu oeryddion dŵr i'r 1,500 o ysgolion eraill Cymru yn costio tua £0.9miliwn, ond yn ymarferol bydd rhai o'r ysgolion hyn eisoes yn darparu dŵr am ddim.

8.53 Mae darparu dŵr am ddim trwy gydol y dydd mewn sawl lleoliad yn yr ysgol (mewn mannau eraill ac eithrio'r toiledau) yn un o gynigion y Cynllun Gweithredu *Blas am Oes* yn ogystal.

Hybu prydau mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill (Adran 9)

8.54 Nid yw'r math o weithgarwch a'r dulliau a ddefnyddir i hybu prydau ysgol wedi'u nodi yn y Mesur arfaethedig. Mae lefel sylweddol o weithgarwch eisoes wedi'i gynllunio fel rhan o'r *Cynllun Gweithredu Blas am Oes* a hynny wedi'i ariannu drwy'r cyllidebau presennol. Er enghraifft, ceir ymrwymiad i hybu ac annog disgyblion i fwyta prydau ysgol drwy ymgyrch farchnata genedlaethol a lleol.

8.55 Gallai lefel y gweithgarwch amrywio o ddosbarthu posteri, rhannu arferion da, rhoi canllawiau i ysgolion drwy ymgyrch farchnata genedlaethol, neu adnewyddu ystafelloedd bwyta a chyfleusterau cegin yn sylweddol.

8.56 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a Gweithrediaeth yr Alban wedi pwysleisio bod gwella ystafelloedd bwyta ysgolion yn fodd o annog disgyblion i fwyta cinio ysgol.

8.57 Yn yr Alban, cost gyfartalog adnewyddu'r cyfleusterau yw £24,000 ym mhob ysgol, gyda chostau adnoddau cysylltiedig o ryw £1,500 y flwyddyn.[18] Fodd bynnag, mae'n anodd iawn defnyddio'r ffigwr hwn i gyfrifo cyfanswm posibl y costau yng Nghymru. Prin yw'r wybodaeth a gesglir ar lefel genedlaethol, ac yn aml ni chaiff data ei gasglu mewn ffordd gyson na chymharol ar lefel leol. Yn y ddogfen ymgynghori *Blas am Oes,* dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru:

> Mae safonau ceginau ac ystafelloedd bwyta mewn ysgolion yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Nid oes gan rai ysgolion gegin ar y safle ac mae'n rhaid iddynt gael bwyd sydd wedi ei baratoi yn rhywle arall. Nid oes gennym ddarlun llawn o'r sefyllfa . . .

8.58 Rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grant refeniw penodol o £1.3 miliwn i awdurdodau lleol ym mis Ionawr 2007, er mwyn prynu cyfarpar ac offer cegin/ystafelloedd bwyta.

8.59 Mae'r *Cynllun Gweithredu Blas am Oes* yn cynnwys ymrwymiad i hyrwyddo ac annog disgyblion i ddewis prydau ysgol drwy ymgyrch farchnata genedlaethol a lleol.

<u>Awdurdodau Addysg Lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod disgyblion yn bwyta prydau ysgol am ddim (adran 9(2))</u>

8.60 Mae Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi gwybodaeth am nifer a chanran[19] y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hefyd yn bwriadu comisiynu arolwg llenyddiaeth o'r gwaith a wneir i annog disgyblion i fwyta prydau ysgol am ddim. Ar ôl gwneud y gwaith hwn, bwriedir trafod a oes angen comisiynu ymchwil penodol er mwyn canfod y rhesymau sy'n atal disgyblion rhag bwyta prydau ysgol am ddim. Mae costau'r gwaith hwn eisoes wedi'i gynnwys yn y cyllidebau presennol.

<u>Awdurdodau Addysg Lleol i ddiogelu manylion disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (adran 10)</u>

8.61 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn Lloegr er mwyn cyflwyno system electronig o benderfynu pwy sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Bwriad hyn yw lleihau biwrocratiaeth, yn arbennig i ysgolion; annog disgyblion i ddewis prydau ysgol am ddim drwy gael gwared ar y stigma o'r broses wneud cais; a lleihau'r tebygolrwydd o dwyllo a gwneud camgymeriadau. Y nod yw sefydlu cynllun cenedlaethol, gydag awdurdodau

[18] *Hungry for Success*, Atodiad I, Gwefan Llywodraeth yr Alban: http://www.scotland.gov.uk/Publications/2003/02/16273/17583

[19] Ysgolion yng Nghymru : Ystadegau Cyffredinol 2007, Pennod 9, http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/publications/swgs2007/?lang=cy

lleol yn cadw golwg arno, yn lle'r amrywiaeth o systemau gwahanol sy'n bodoli ar hyn o bryd.

8.62 Mewn Adroddiad ar Benderfyniad[20] ym mis Medi 2007, cytunodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno system wirio electronig ar gyfer canfod pwy sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru, ac y byddai'r costau'n cael eu talu o'r gyllideb bresennol.

8.63 Dywed Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd hefyd yn ystyried ac yn datblygu systemau heb arian parod, ac y dylai cysylltiad fod rhwng hyn â'r gwaith seilwaith ar y cerdyn call cenedlaethol i ddinasyddion.

8.64 Yn yr Alban, amcangyfrifir bod cyflwyno system gardiau wedi costio tua £16,000 ym mhob ysgol, ynghyd â chostau adnoddau cysylltiedig o £1,000. Fodd bynnag, gall y costau amrywio'n fawr yn dibynnu ar faint yr ysgol a'r math o system a ddefnyddir (cardiau sweip neu gardiau call).

**Crynodeb**

8.65 Mae'r Mesur ei hun yn golygu rhai costau uniongyrchol wrth fonitro ac adrodd, a cheir crynodeb ohonynt yn Nhabl 1 os ydynt yn hysbys. Fodd bynnag, i bob pwrpas, dull yw'r Mesur o sicrhau bod y Llywodraeth yn rhoi nifer o'r polisïau sydd yn y *Cynllun Gweithredu Blas am Oes* ar waith yn statudol, a sicrhau bod y polisïau hyn yn cael eu monitro a'u gwerthuso.

8.66 Bydd y costau ôl-ddilynol sy'n ymwneud â darparu prydau iachach mewn ysgolion yn dibynnu i raddau helaeth ar ba mor gyflym y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud cynnydd graddol wrth gyflwyno safonau maeth, yn ogystal â pha mor llwyddiannus y bydd Awdurdodau Lleol wrth sicrhau gwerth am arian. Os bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn penderfynu dilyn y safonau sydd wedi'u cyflwyno yn Lloegr a'r Alban, byddai'n arwain at uchafswm buddsoddiad o rhwng £17 miliwn a £38 miliwn yng Nghymru dros gyfnod o dair blynedd. (Atodiad A).

[20] Adroddiad ar Benderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru, 28 Medi 2007, http://wales.gov.uk/publications/accessinfo/decisionreport/educationdrs/educationdrs2007/1727075/?lang=cy

Tabl 1: Crynodeb o'r goblygiadau o ran cost sy'n deillio'n uniongyrchol o'r Mesur arfaethedig

| **Disgrifiad o'r Ddyletswydd** | **Effaith** |
|---|---|
| Hybu Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Adran 1) | I ddechrau, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnig lefel sylweddol o weithgarwch hybu fel rhan o Gynllun Gweithredu a pholisïau *Blas am Oes*. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi'i gynnwys yng nghyllidebau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru.<br><br>Disgwylir hefyd y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn datblygu ffyrdd creadigol o hybu bwyta'n iach, a bydd hyn yn golygu mân gostau'n unig neu'n arwain at arbedion. |
| Dyletswydd Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r cwricwlwm (adran 2) | Wedi'i gynnwys yng nghyllidebau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru. |
| Dyletswydd cyrff llywodraethu i gyflwyno adroddiadau (adran 4) | Ni ddylai'r ddyletswydd ar gyrff llywodraethu fod yn ormod o faich, gan ei bod wedi'i chynnwys yn y strwythurau presennol ar gyfer cyflwyno adroddiadau. |
| Swyddogaethau'r Prif Arolygydd Ysgolion (adran 5) | Mae Estyn wedi rhoi amcangyfrif o swm o rhwng £100,000 a £250,000 y flwyddyn. Mae'r costau'n dibynnu ar lefel y staff arbenigol a ddefnyddir yn ystod yr arolwg. |
| Adroddiadau gan Weinidogion Cymru (adran 6) | Mae hyn yn ddibynnol ar y ffurf a fabwysiedir gan Weinidogion Cymru, ond ni ddylent fod yn ormod o faich, a dylent fod wedi'u cynnwys yng nghyllidebau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru. |
| Gofynion ynglŷn â chyflenwi dŵr yfed am ddim (adran 8) | Darparwyd oeryddion dŵr am ddim i 384 o ysgolion Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru, am gost o £225,000. Mewn theori, byddai darparu oeryddion dŵr i'r 1,500 o ysgolion eraill Cymru yn costio tua £0.9miliwn, ond yn ymarferol bydd rhai o'r ysgolion hyn eisoes yn darparu dŵr am ddim. Mae hyn yn bolisi hefyd yn *Blas am Oes*. |
| Hybu prydau mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill (Adran 9) | Mae lefel sylweddol o weithgarwch wedi'i gynllunio ar hyn o bryd fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Blas am Oes. Bydd hyn yn cael ei ariannu drwy'r cyllidebau presennol. Er enghraifft, ymrwymiad i hybu ac annog disgyblion i fwyta prydau ysgol drwy ymgyrch farchnata genedlaethol a lleol.<br><br>Mae'r costau'n ddibynnol ar lefel y gweithgarwch. Er enghraifft, gallai hyn amrywio o ddosbarthu posteri, rhannu arferion da, rhoi canllawiau i ysgolion drwy |

| | |
|---|---|
| | ymgyrch farchnata genedlaethol, neu adnewyddu ystafelloedd bwyta a chyfleusterau cegin yn sylweddol.<br><br>Rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grant refeniw penodol o £1.3 miliwn i awdurdodau lleol ym mis Ionawr 2007 er mwyn prynu cyfarpar ac offer cegin/ystafelloedd bwyta mewn ysgolion.<br><br>Bydd peth o’r gweithgarwch hybu yn golygu mân gostau’n unig neu’n cael ei ariannu drwy arbedion mewn meysydd eraill. |
| Awdurdodau Addysg Lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod disgyblion yn bwyta prydau ysgol am ddim (adran 9(2)) | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi’n cynnal ymchwil i ganfod y costau hyn. |
| Awdurdodau Addysg Lleol i ddiogelu manylion disgyblion sy’n cael cinio ysgol am ddim (adran 10) | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi cytuno ar gostau cyflwyno system electronig i benderfynu pwy sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.<br><br>Dywed Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd hefyd yn trafod ac yn datblygu systemau heb arian, ac y dylai hyn fod yn gysylltiedig â’r gwaith seilwaith sy’n mynd rhagddo ar y cardiau call cenedlaethol i ddinasyddion. |

**Atodiad A**:

1 Yn y paragraffau a ganlyn bwriedir rhoi rhyw syniad o oblygiadau ariannol y **costau anuniongyrchol** sydd ynghlwm wrth y Mesur Arfaethedig, sef y costau posibl a all godi o ganlyniad i Reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol.

2 Amcangyfrifwyd y costau hyn ar sail y wybodaeth a ddefnyddiwyd i gostio polisïau *Blas am Oes* yng Nghymru, polisïau *Hungry for Success* yn yr Alban a'r polisïau bwyta'n iach yn Lloegr. Mae'r tri'n cynnwys amcangyfrif o'r costau sydd ynghlwm wrth gyflwyno safonau maeth llymach.

3 Sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Weithgor Bwyd mewn Ysgolion i nodi'r costau ac i roi cyngor ynghylch agweddau eraill ar y strategaeth *Blas am Oes*. Sylweddolodd y gweithgor yn fuan iawn, fodd bynnag, pa mor anodd yw rhoi amcangyfrif manwl o'r costau sydd ynghlwm wrth hybu bwyta'n iach mewn ysgolion, a hynny'n bennaf oherwydd prinder data sylfaenol yng Nghymru.

4 Caiff gwybodaeth gyfyngedig ei chasglu'n genedlaethol ac, yn aml iawn, nid yw data a gesglir yn lleol yn cael ei gasglu mewn ffordd gyson na chymharol. Dyma mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ddweud yng *Nghynllun Gweithredu Blas am Oes*:

> Wrth ymgymryd â'u harolwg o ddarpariaeth prydau ysgol daeth yn fwyfwy amlwg i'r Gweithgor Bwyd mewn Ysgolion bod diffyg data gwaelodlin o safon uchel ar gael i'w helpu i lywio penderfyniadau ar y lefelau o fuddsoddiad ariannol oedd eu hangen i weithredu'r newidiadau a gynigir yn Blas am Oes yn llawn…..Er mwyn symud ymlaen ar hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio datblygu dull y cytunwyd arno i gyfrifo cost cynhyrchu pryd bwyd ysgol trwy drafod ag awdurdodau lleol.

**Amcangyfrif o'r costau yn yr Alban**

5 Mae Gweithrediaeth yr Alban wedi ymgymryd â chryn dipyn o waith i amcangyfrif y costau sydd ynghlwm wrth eu cynllun *Hungry for Success*.

6 Caiff yr arian a geir i hybu'r polisïau yn yr Alban ei ddefnyddio i ariannu er enghraifft:
- safonau maeth newydd mewn prydau ysgol;
- ffrwythau am ddim i holl ddisgyblion cynradd un a dau;
- darparu dŵr yfed;
- gwell cyfleusterau mewn ystafelloedd bwyta;
- maint dogn safonol a manylebau cynhyrchion; a
- camau i annog disgyblion i fanteisio ar eu hawl i brydau ysgol am ddim.

7 Mae Gweithrediaeth yr Alban yn cynnal arolwg blynyddol yn ymwneud â phrydau ysgol. Seiliwyd yr amcangyfrifon o gostau polisïau *Hungry for Success* ar y data a gafwyd o ganlyniad i'r arolygon hyn.

8 Yn 2007, ar ddiwrnod yr arolwg yn yr Alban, cymerodd 46 y cant o'r disgyblion a oedd yn bresennol yn yr holl ysgolion a ariennir yn gyhoeddus, bryd a ddarparwyd gan yr ysgol. Roedd 16.0 y cant o'r disgyblion yn yr Alban yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. O'r rhain, cafodd 67.5 y cant bryd ysgol

am ddim ar ddiwrnod yr arolwg. Mae hyn yn cyfateb i 11.5 y cant o'r holl ddisgyblion. Roedd gan bedair o bob pump o'r ysgolion uwchradd a hanner yr ysgolion cynradd yn yr Alban system o sicrhau nad oedd enwau plant a oedd yn cael pryd ysgol am ddim ac yn cael eu datgelu. Yn 90 y cant o'r holl ysgolion, roedd dŵr oer ffres ar gael bob amser i'r disgyblion a'r staff. [21]

9 Does dim arolwg blynyddol o brydau ysgol yn cael ei gynnal yng Nghymru er bod rhywfaint o wybodaeth yn cael ei chasglu a'i chyhoeddi yn arolwg ysgolion blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn 2007, roedd 16 y cant o ddisgyblion ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n cyfateb i'r nifer yn yr Alban.[22]

10 Yn yr adroddiad *Blas am Oes,* nodwyd bod £63.5 miliwn wedi'i ddyrannu gan Weithrediaeth yr Alban dros y 3 blynedd (2003-2005). Dosbarthwyd £14 miliwn i awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn gyntaf, £21 miliwn yn yr ail a £24 miliwn yn ystod y drydedd a chadwyd £4.5 miliwn yn ôl yn ganolog ar gyfer gwerthuso'r cynllun ac i ddarparu cymorth canolog.

**Cyllid ychwanegol yn yr Alban ar gyfer 2006 - 2008**

11 Ym mis Rhagfyr 2005, cyhoeddwyd pecyn tair blynedd ychwanegol (2006-2008), o dros £70 miliwn, ar gyfer y cynllun *Hungry for Success* yn yr Alban er mwyn i awdurdodau lleol fedru parhau â'r gwaith a ddechreuwyd â'r buddsoddiad gwreiddiol.

**Y costau yn Lloegr ar gyfer 2005 -2008**

12 Dyma'r blaenoriaethau ariannu ym mholisïau *Bwyd mewn Ysgolion* yn Lloegr:

- pennu isafswm i'w wario ar gynhwysion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn cyrraedd safonau maeth sylfaenol;
- cynyddu hyfforddiant ac oriau gwaith cogyddion ysgol;
- sefydlu Ymddiriedolaeth Bwyd Ysgolion newydd i roi cyngor annibynnol i ysgolion a rhieni;
- rhoi cyfrifoldeb ar Ofsted i adolygu safon prydau ysgolion fel rhan o arolygiadau ysgol rheolaidd;
- creu cymhwyster galwedigaethol newydd i arlwywyr ysgolion;
- gwella'r cyfleusterau neu roi cyfleusterau newydd yng ngheginau ysgolion;
- mabwysiadu dulliau o gynnwys yr ysgol gyfan yn y cynlluniau.

13 Ym mis Mawrth 2005, dyrannwyd £220 miliwn dros 3 blynedd yn Lloegr i ariannu grantiau i ysgolion ac AALlau i weddnewid prydau ysgolion. Roedd hyn yn ddigon i wario o leiaf 50c y diwrnod ar bob disgybl cynradd, a 60c y diwrnod ar bob disgybl uwchradd, yn ogystal â chynyddu hyfforddiant ac oriau gwaith i gogyddion ysgol.[23]

14 Yn 2005, rhoddwyd £60 miliwn o arian Cronfa'r Loteri Fawr a'r Adran Addysg a Sgiliau[24] i sefydlu Ymddiriedolaeth Bwyd Ysgolion newydd i roi cymorth a chyngor annibynnol i ysgolion a rhieni er mwyn gwella safon prydau ysgol.

[21] Gwefan Ystadegau Llywodraeth yr Alban, School Meals in Scotland 2007, http://www.scotland.gov.uk/Publications/2007/06/04134749/1
[22] Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2007, Tabl 9.2 http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/publications/swgs2007/?lang=en
[23] *Healthy Food In Schools - Transforming School Meals,* yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 30 Mawrth 2005, http://www.dfes.gov.uk/pns/DisplayPN.cgi?pn_id=2005_0044
[24] £45 miliwn o Gronfa'r Loteri Fawr a £15 miliwn o'r Adran Addysg a Sgiliau gynt

15 Argymhellodd grŵp adolygu newydd a sefydlwyd gan Ruth Kelly, Ysgrifennydd Addysg y DU ar y pryd, nad oedd y cyllid yn Lloegr yn ddigonol a bod angen £266 miliwn ychwanegol dros y tair blynedd. Cynigiodd y grŵp adolygu safonau maeth llymach hefyd.

16 Mewn gwirionedd, dyrannwyd £240 miliwn tuag at y gost o gynhyrchu prydau ysgol rhwng 2008 a 2011.[25]

17 Ym mis Hydref 2007, cyhoeddwyd arian cyfalaf o £150 miliwn i helpu'r awdurdodau lleol mwyaf anghenus i adeiladu ceginau ysgol newydd, fel rhan o becyn arian cyfalaf ehangach. [26]

18 Ym mis Chwefror 2008, cyhoeddwyd £21 miliwn ychwanegol dros dair blynedd, ynghyd â £2 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf, i hybu gwaith yr Ymddiriedolaeth Bwyd Ysgolion.[27]

**Amcangyfrifon y Gweithgor Bwyd mewn Ysgolion ar gyfer Cymru**

19 Yn ôl lefelau cyllido'r Alban ar gyfer 2003-2005, cyfrifodd y Gweithgor Bwyd mewn Ysgolion, gan ddefnyddio sylfaen gyfatebol (60%), mai oddeutu £38 miliwn fyddai cyfanswm y gost ddangosol dros dair blynedd yng Nghymru gyda £8.4 miliwn yn ystod y flwyddyn gyntaf, £12.6 miliwn yn ystod yr ail, a £14.4 miliwn yn ystod y drydedd ynghyd â £2.7 miliwn ychwanegol i'r gadw'n ôl yn ganolog.

20 Yn ôl lefelau cyllido Lloegr a gyhoeddwyd yn 2005, cyfrifodd y Gweithgor Bwyd mewn Ysgolion, gan ddefnyddio sylfaen gyfatebol (6.1%), y byddai'n costio tua £17 miliwn dros y 3 blynedd nesaf i ddarparu cymorth ar y lefel hon.

**21 O ddefnyddio ffigyrau cyllideb Lloegr a'r Alban, amcangyfrifodd y Gweithgor Bwyd mewn Ysgolion y byddai angen buddsoddiad o rhwng £17 miliwn a £38 miliwn yng Nghymru dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer eu polisïau bwyta'n iach. Roeddynt hefyd yn rhagweld y byddai angen rhywfaint o fuddsoddiad bob blwyddyn ar ôl y cyfnod cychwynnol o dair blynedd.**

[25] Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, datganiad i'r wasg 7 Chwefror 2008, adran nodiadau http://www.dfes.gov.uk/pns/DisplayPN.cgi?pn_id=2008_0026
[26] Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, datganiad i'r wasg, 10 Hydref 2007, http://www.dfes.gov.uk/pns/DisplayPN.cgi?pn_id=2007_0185
[27] Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, datganiad i'r wasg, 7 Chwefror 2008, http://www.dfes.gov.uk/pns/DisplayPN.cgi?pn_id=2008_0026

## Rhan 3: Nodiadau Esboniadol

### Adran 1: Dyletswyddau mewn perthynas â hybu bwyta'n iach mewn ysgolion

1. Byddai'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, awdurdodau addysg lleol (AALLau), cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a'u penaethiaid i arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n hybu bwyta'n iach mewn ysgolion, neu yn ystod gweithgareddau atodol fel ymweliadau, teithiau cerdded ayyb.

2. Wrth gyflawni'r ddyletswydd honno, byddent yn ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ac unrhyw gyngor gwyddonol dibynadwy perthnasol. Bydd yn rhaid i gyrff llywodraethu a phenaethiaid hefyd ymgynghori â chynghorau ysgol ynghylch ymgymryd â'r ddyletswydd ac ystyried sylwadau'r cynghorau ysgol hynny.

3. Ni fyddai'r adran hon yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar fwyd a diod y byddai disgyblion yn dod gyda nhw i'w fwyta a'i yfed eu hunain.

4. Byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried y ddyletswydd gyffredinol a osodwyd yn yr adran hon wrth wneud rheoliadau o dan adran 7, sy'n delio â rhagnodi safonau maeth ar gyfer bwyd a ddarperir ar safleoedd ysgol.

### Adran 2: Dyletswydd bellach ar Weinidogion Cymru

5. Byddai'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir gan AALLau er mwyn hybu bwyta'n iach. Gallai hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, i'r cwricwlwm addysg gorfforol a bioleg yn ogystal â gwersi coginio.

### Adran 3: Ystyr "bwyta'n iach"

6. Bwriad yr adran hon yw darparu diffiniad eang o "fwyta'n iach", er mwyn cynnwys nid yn unig iechyd yr unigolyn sy'n bwyta'r bwyd ond hefyd ei effaith ar iechyd cyffredinol y boblogaeth a'r amgylchedd.

### Adran 4: Cynnwys gwybodaeth am hybu bwyta'n iach mewn adroddiadau llywodraethwyr

7. Byddai'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu gynnwys gwybodaeth am y camau a gymerwyd i hybu bwyta'n iach ac i ba raddau y maent yn llwyddo.

### Adran 5: Swyddogaethau'r Prif Arolygydd Ysgolion

8. Mae Adran 20(1) o Ddeddf Addysg 2005 yn gosod allan y materion hynny y mae'n ddyletswydd i Brif Arolygwr Addysg a Hyfforddiant Cymru adrodd i Weinidogion Cymru yn eu cylch. Byddai'r adran hon yn ychwanegu paragraff newydd (g) i'r is-adran honno a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygwr hefyd adrodd ar y ffordd y cydymffurfiwyd â'r ddyletswydd i hybu bwyta'n iach (a gynhwysir yn adran 1 o'r Mesur hwn) a pha mor effeithiol y bu'r camau a gymerwyd.

**Adran 6: Adroddiadau gan Weinidogion Cymru**

9. Byddai'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y cynnydd a wnaed o ran hybu bwyta'n iach mewn ysgolion. Mae'r adran hon hefyd yn gosod allan y materion i'w cynnwys yn yr adroddiadau hyn.

**Adran 7: Gofynion ynglŷn â bwyd a diod a ddarperir ar fangre ysgol ayyb.**

10. Mae'r adran hon wedi'i seilio ar adran 114A bresennol Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, sy'n cael ei chynnwys yn y Mesur er mwyn medru delio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol am safonau maeth mewn ysgolion mewn un darn o ddeddfwriaeth sylfaenol.

11. Y mae hefyd yn ychwanegu, yn is-adran (2), ofyniad penodol i bennu uchafswm y braster, halen, siwgr ac ychwanegion artiffisial y dylid ei gynnwys mewn bwyd a diod a ddarparir i ddisgyblion ar safleoedd ysgol.

12. Byddai'r adran hon hefyd yn caniatáu rhagnodi eithriadau, fel cinio Nadolig, drwy reoliadau gan Weinidogion Cymru.

13. Y mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gael sylwadau gan ddisgyblion cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon.

**Adran 8: Dŵr yfed mewn ysgolion**

14. Byddai'r adran hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol i sicrhau bod cyflenwad o ddŵr yfed ar gael am ddim, ac i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

**Adran 9: Hybu prydau mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill**

15. Byddai'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i AALlau hybu'r ffaith fod prydau ysgol ar gael gan annog disgyblion i'w bwyta, ac i hybu prydau ysgol am ddim yn benodol.

**Adran 10: Diogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim**

16. Er mwyn annog disgyblion i fwyta prydau ysgol iach, byddai'r adran hon yn gosod dyletswydd ar AALlau i ddiogelu manylion adnabod y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac i wneud hynny'n unol ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Gwneir hyn drwy fewnosod adran newydd 512B yn Neddf Addysg 1996 yn syth ar ôl yr adran honno yn y Ddeddf sy'n delio â'r hawl i gael cinio ysgol am ddim.

**Adran 11: Diwygiadau canlyniadol**

17. Gan y byddai adran 7 o'r Mesur hwn yn disodli adran 114A o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 mewn perthynas â Chymru, mae'r adran hon yn gwneud ychwanegiad canlyniadol ar ffurf is-adran newydd yn adran 114A i'w gwneud hi'n glir nad yw'n berthnasol i Gymru.

**Adran 12: Arbediad**

18. Mae'r adran hon yn sicrhau bod effaith unrhyw reoliadau a wnaed o dan adran 114A yn parhau cyn y daw'r Mesur hwn i rym, fel y bo rheoliadau mewn grym yn ystod y cyfnod cyn y gwneir y rheoliadau o dan y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Mesur hwn.

**Adran 13: Gorchmynion a rheoliadau**

19. Mae'r adran hon yn cynnwys y manylion arferol am bŵer Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Byddai hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda dau eithriad. Yn gyntaf, pe bai'r is-ddeddfwriaeth yn cynnig diwygio Deddf Seneddol neu Fesur Cynulliad, byddai'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Yn ail, ac yn unol â'r drefn arferol, ni fyddai unrhyw weithdrefn mewn perthynas â gorchmynion cychwyn.

**Adran 14: Pŵer i wneud darpariaethau pellach sy'n atodol neu'n ganlyniadol ayyb.**

20. Darpariaeth safonol yw hon i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau atodol neu ganlyniadol i alluogi'r Mesur i fod yn gwbl effeithiol.

**Adran 15: Dehongli**

21. Mae'r adran hon yn diffinio nifer o'r termau a ddefnyddir yn y Mesur, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaethau sylweddol.

**Adran 16: Enw byr a chychwyn**

22. Mae'r adran hon yn nodi o dan ba enw y caiff y Mesur ei adnabod. Mae hefyd yn darparu ar gyfer dod â'r Mesur i rym. Daw'r adran hon i rym ar y dyddiad y caiff ei chymeradwyo gan Ei Mawrhydi mewn

cyfarfod o’r Cyfrin Gyngor, a daw gweddill y Mesur i rym yn unol â Gorchymyn Cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru.